Papur y Bwrdd

02 Hydref 2014

Teitl y Papur:	**Llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol (2015-19) i Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfeirnod y Papur:	**NRW B B 70.14**
Noddwr: Paratowyd y Papur gan:	**Clive Thomas** Derek Carpenter

Pwrpas y Papur:	**Penderfyniad**
Argymhelliad:	1. Er mwyn cyflawni ein gofynion cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, cymeradwyir amcanion drafft arfaethedig y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (atodiad 1) a gallwn fynd ati i gyflwyno'r amcanion mewn ymgynghoriad cyhoeddus. 2. Bydd y cynllun gweithredu pedair blynedd a ddatblygwyd o'r amcanion drafft yn cyd-fynd â'r pum 'da' a amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol.
Angen Penderfyniad:	1. Cytuno ar amcanion drafft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. 2. Cytuno y bydd y camau gweithredu, y gwaith monitro ac adrodd a fydd yn dilyn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn perthyn yn gyfartal i bob cyfarwyddiaeth ac yn rhan o Gynlluniau Cyflawni'r Cyfarwyddiaethau. Gofynnir am enwebiadau o bob cwr o'r busnes i fynychu cyfarfodydd Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a fydd yn adrodd ac yn casglu gwybodaeth am gynnydd parhaus.

Effaith: Noder – efallai na fydd pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc	**Effaith ar yr Amgylchedd**: Bydd lansio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn llwyddiannus a gwaith monitro ac adrodd parhaus yn helpu pobl Cymru i ddeall y negeseuon a'r manteision sy'n deillio o amgylchedd da. Bydd hefyd yn ein helpu ni i gyfathrebu mewn ffyrdd priodol er mwyn i'r negeseuon gyrraedd y grwpiau (targed) priodol a'n galluogi i wirio pa mor effeithiol rydym ni'n cyrraedd ein cynulleidfaoedd targed. **Effaith ar yr Economi**: Amherthnasol **Effaith ar y Gymuned**: Drwy Gynllun Cydraddoldeb Strategol effeithiol, byddwn yn deall sut mae ystod eang o gymunedau'n defnyddio ein gwasanaethau ac unrhyw rwystrau maent yn eu hwynebu wrth geisio manteisio ar hyn. Bydd y Cynllun hefyd yn ein galluogi i gynllunio, paratoi a darparu ein gwasanaethau i bobl amrywiol Cymru. **Effaith ar Wybodaeth**: Wrth gasglu a gwerthuso tystiolaeth byddwn yn sicrhau ei bod yn rhydd o ragfarn a'n bod yn gwneud penderfyniadau ar bolisi sy'n destun Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Pwnc

1. Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno amcanion drafft ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dilyn nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu ym mis Gorffennaf ac Awst 2014.

2. Yn ogystal â bod y peth iawn i'w wneud, mae gennym ddyletswydd gyfreithiol fel corff cyhoeddus rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 i gael cynllun o'r fath.

3. Mae'r ddeddf yn gosod gofynion cyffredinol arnom ni i gael amcanion cydraddoldeb sy'n rhoi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon. Mae'n rhaid i ni geisio hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

4. Fel corff rhestredig yng Nghymru, mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi ein Hamcanion Cydraddoldeb, gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion hynny a rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd gennym wrth ystyried beth fydd ein hamcanion cydraddoldeb.

5. I'n galluogi ni i wneud hyn, rydym wedi bod yn ymgysylltu â staff, unigolion a sefydliadau ledled Cymru i ddatblygu ein Hamcanion Cydraddoldeb drafft.

6. Bydd ein Hamcanion Cydraddoldeb yn helpu i sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus a chyflogaeth yn deg, hygyrch, yn ymateb i anghenion pobl a bod cymunedau'n gynhwysol. Rydym am i bawb deimlo y gallan nhw fod yn nhw'u hunain ac i staff ffynnu yn eu gwaith. Ni ddylai pobl fod o dan anfantais yn sgil y ffaith fod ganddynt un o'r nodweddion gwarchodedig canlynol.

   Dyma'r naw nodwedd warchodedig:

   - Rhyw (dyn neu fenyw)
   - Hil
   - Ffydd neu gred
   - Cyfeiriadedd rhywiol
   - Oedran
   - Beichiogrwydd a mamolaeth
   - Bod yn briod neu mewn partneriaeth sifil
   - Bod yn berson anabl
   - Bod yn berson trawsryweddol

Cefndir

7. Cynhaliodd y Tîm Gweithredol gyfarfod Cynllun Cydraddoldeb Strategol cychwynnol, a oedd yn cynnwys Diverse Cymru a'n Huwch Gynghorydd Cydraddoldeb ar 29 Gorffennaf 2014. Yn y cyfarfod hwn casglwyd syniadau am y cyfeiriad y dylai'r Cynllun ei gymryd ym marn y Tîm Gweithredol a phenderfynwyd y dylai'r cynllun ddilyn thema'r Cynllun Corfforaethol ac y dylai fod yn seiliedig ar y pum rhaglen 'dda'. Bydd pob rhaglen yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchodedig oni bai fod y cynllun yn datgan bod amcan neu gam gweithredu wedi'i dargedu at nodweddion penodol.

   Y pum rhaglen 'dda':

   - Gwybodaeth dda
   - Amgylchedd da
   - Da i bobl
   - Da i Fusnes
   - Sefydliad da

8. Ym mis Awst 2014 cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau cyfrannu a oedd yn rhoi cyfle i aelodau staff a chwsmeriaid allanol gyfrannu a helpu i lywio datblygiad ein hamcanion cydraddoldeb.

   Cynhaliwyd chwe digwyddiad cyfrannu i gyd ym mhob cwr o Gymru:

   - 14/08 – Llandrindod (Allanol)
   - 14/08 – Llandrindod (Mewnol)
   - 20/08 - Canolfan Ymwelwyr Garwnant (Allanol)
   - 22/08 – Tŷ Cambria, Caerdydd (Mewnol)
   - 27/08 – Canolfan Busnes Conwy (Allanol)
   - 28/08 – Maes y Ffynnon, Bangor (Mewnol)

   Yn y digwyddiadau, cafodd y mynychwyr gyfle i rannu syniadau a nodi rhwystrau posibl ac awgrymu atebion posibl wrth feithrin cysylltiadau â ni. Cynhaliwyd y digwyddiadau gan ODPM gyda chefnogaeth aelodau'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain. Gweler atodiad 2.

9. Ar 9 Medi cyflwynwyd yr Amcanion Cydraddoldeb drafft (atodiad 1) i'r Tîm Gweithredol gan eu gwahodd i roi sylwadau arnynt. Mae'r sylwadau wedi'u cynnwys yn y papur hwn.

Crynodeb

10. Cynllun pedair blynedd ar gyfer 2015 i 2019 yw'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol sy'n rhoi manylion sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflawni ei amcanion i gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010.

11. Bydd yr Amcanion Cydraddoldeb y byddwn yn penderfynu arnynt yn cefnogi'r Cynllun Corfforaethol ac yn cael eu cynnwys yn yr wyth Cynllun Cyflawni Cyfarwyddiaeth. Ein cyfarwyddiaethau fydd yn gyfrifol am gyflawni'r camau gweithredu, ynghyd â monitro ac adrodd ar gynnydd er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o'n holl waith.

12. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol terfynol yn sicrhau bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn cydymffurfio'n llawn ac yn helpu i ddatblygu ein diwylliant i fod yn deg, cynhwysol a llawn parch.

Camau Nesaf

13. Cyn y medrwn gyhoeddi cynllun terfynol, mae angen i ni gytuno ar ein Hamcanion Cydraddoldeb drafft a'u cyflwyno mewn ymgynghoriad cyhoeddus. Yn dilyn yr ymgynghoriad a chyn cyhoeddi ym mis Ebrill 2015, byddwn yn paratoi cyfres o gamau gweithredu i'n galluogi i gyflawni ein hamcanion a bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd. Bydd y camau hyn yn seiliedig ar yr ymatebion a dderbynnir i'r ymgynghoriad ac yn bosib i'w mesur fel y gallwn adrodd arnynt bob blwyddyn.

14. Bydd cyfarwyddiaethau'n adrodd bob chwarter yn unol â'r trefniadau adrodd cynllunio corfforaethol cyfredol, ODPM fydd yn gyfrifol am goladu'r data a pharatoi adroddiadau blynyddol ar ein cynnydd.

15. Gofynnir am enwebiadau o bob cwr o'r busnes i fynychu cyfarfodydd y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a fydd yn adrodd ac yn casglu gwybodaeth am gynnydd parhaus.

Risgiau

16. Os bydd Amcanion Cydraddoldeb a chamau gweithredu ategol gwael yn cael eu dewis, neu fod unrhyw oedi hir o ran cyhoeddi'r cynllun, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn torri ei rwymedigaethau cyfreithiol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Os ydym yn torri'r Ddeddf bydd pobl o fewn ac y tu allan i'r sefydliad yn colli ffydd ynom, a bydd hyn yn niweidio ein henw da. Bydd methiant hefyd yn amharu ar ein gallu i greu'r diwylliant priodol ar gam mor ddylanwadol o'n datblygiad.

Goblygiadau Ariannol

17. Os cytunir ar y broses hon a bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn ein gwaith bob dydd, bydd y cyfleoedd a'r prosiectau wedi'u nodi a'u hariannu eisoes gan ein ffrydiau gwaith cyfredol.

Cyfathrebu

18. Ar ôl cael cymeradwyaeth y Bwrdd, bydd yr Amcanion Cydraddoldeb Strategol drafft yn cael eu rhannu ledled y sefydliad a chamau'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff yn cael eu grymuso i fod yn rhan o'r broses. Ar yr un pryd, bydd yr amcanion drafft yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a ddaw i ben ddiwedd 2014. Bydd Cynllun Gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r adborth a dderbynnir i'r ymgynghoriad hwn. Bydd cynllun cyfathrebu'n cael ei ddatblygu yn ystod y cyfnod ymgynghori hefyd.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

19. Pan fyddwn yn datblygu'r cynllun gweithredu byddwn yn cynnal asesiad llawn o effaith. Mae angen aros tan hynny gan mai dyna pryd fyddwn yn gwybod beth fydd y camau gweithredu a sut y gallant effeithio ar ein gwasanaethau ar gyfer y nodweddion gwarchodedig neu eu gwella.

Mynegai i'r Atodiadau

Atodiad 1 Yr Amcanion Cydraddoldeb drafft arfaethedig i ffurfio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan gwmpasu gwybodaeth dda, amgylchedd da, da i bobl, da i fusnes a sefydliad da.

Atodiad 2 Crynodeb byr o'r chwe digwyddiad cyfrannau (tri allanol a thri mewnol) a gynhaliwyd yn y gogledd, canolbarth a'r de yn ystod mis Awst 2014.